# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**12 Ebrill 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, H N Evans, C Thomas, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Dim | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.03.23 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Lon y Fynwent** – Dywedodd y Clerc bod y gwaith yn cael ei wneud dros y ddau ddiwrnod nesaf |
| **4.2** | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Mae'r Clerc yn aros am ymateb i'r cais i'r Gymdeithas |
| **4.3** | **Tap mynwent Salem -** Nid yw'r casgen ddŵr a brynwyd gan y Clerc yn addas. Dywedodd y Clerc y byddai'n prynu'r casgen ddŵr gan y Cyngor at ei ddefnydd ei hun.<br>Mae wedi derbyn dyfynbris gan H Williams am £190 i godi'r tanc yn y fynwent, gosod tap newydd a gosod top newydd. Cytunwyd i barhau. Dywedodd y Cyng R G Parry fod Mr Brian Jones bellach wedi prynu'r garages a gall y cyngor barhau i ddefnyddio'r cyflenwad dŵr o'r landers i lenwi'r tanc. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones i ddiolch iddo. |
| **4.4** | **Cysgodfan Bws Engedi -** Dywedodd y Clerc fod caniatâd cynllunio wedi ei roi ac y bydd yn gwneud cais am Drwydded Gwaith Stryd |
| **4.5** | **Wal mynwent Llanbeulan** – mewn llaw |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 10.05.23 |
| | |

| | |
|---|---|
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at weld pawb yn y cyfarfod blynyddol mis nesaf yn Ysgol Bryngwran. Ychwanegodd yn dilyn yr apêl lwyddiannus yn erbyn Parc Solar Traffwll fod cyfarfod yn cael ei gynnal yn Iorwerth ar 03.05.23 i drafod y mater ymhellach. |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| | |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Hugh Williams – tanc dwr – gweler 4.3 |
| **7.2** | Parc Solar Traffwll – gweler 5 |
| **7.3** | Cyngor Gwynedd – Archwilio - Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris o £200 gan Gyngor Gwynedd i wneud yr archwiliad mewnol ar gyfer 2022-2023. |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Parcio wrth ymyl Tyn Berllan a'r Stryd Fawr - Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn rhagor o gwynion ynghylch parcio. (Gweler cofnodion 08.06.22). Cyn bo hir bydd y Cyngor Sir yn peintio llinellau melyn ger Tyn Berllan ac yn y Stryd Fawr. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at berchennog y busnes dan sylw i ofyn iddi atgoffa ei chwsmeriaid y gallant barcio yn y fynwent neu faes parcio'r ysgol. . Mae'r Cynghorwyr H N Evans a D Fowlie wedi gofyn i'r Cyngor Sir fonitro'r parcio. |
| **8.2** | Digwyddiad Stryd Salem - Bu damwain "near miss" yn Stryd Salem yn ddiweddar. Gan nad yw traffig yn dilyn yr arwyddion 20mya, nid oes llawer y gall y cyngor ei wneud. |
| | |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| **9.1** | Mandad y Banc: Yn dilyn adolygiad o fandad y banc cytunwyd i awdurdodi'r canlynol i weithredu ar ran y cyngor: Y Cynghorwyr I Roberts, S Jones, C Thomas, G Owen (Clerc a Swyddog Cyllid) ac I dynnu K Humphreys, E Huws, I. Rowlands. |
| | Cytunwyd I dalu y canlynol: |
| **9.2** | G Owen £30.00 (cyfraniad tuag at argraffydd newydd) |
| **9.3** | H Williams £120.00 (gosod yr hysbysffwrdd newydd) |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Dim |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 10.05.23 |